# CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD

**Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd**

**20 Mehefin 2014**
**Glyder Fawr, Caernarfon**

**Presennol:**

**Cyngor Sir Ynys Môn**
Cyng. Victor Hughes
Cyng. Lewis Davies

**Gwynedd Council**
Cyng Gwen Griffith
Cyng John Brynmor Hughes
Cyng John Pughe Roberts
Cyng. John Wyn Williams
Cyng Owain Williams
Cyng. Dafydd Meurig (Eilydd)

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Rhun ap Gareth | Uwch Gyfreithiwr (CG) |
| Gareth Jones | Rheolwr Gwasanaeth Cynllunio & Amgylcheddol (CG) |
| Nia Haf Davies | UPCC – Rheolwr |
| Heledd Jones | UPCC - Arweinydd Tîm |
| Rhodri Owen | UPCC – Uwch Swyddog Polisi Cynllunio |
| WE Jones | Uwch Reolwr Cyllid (CG) |

**Ymddiheuriadau:**
Cyng Kenneth P Hughes - CSYM
Cyng John A Roberts - CSYM
Cyng Gethin Williams - CG
Cyng Dyfrig Jones – CG
Aled Davies – Pennaeth Rheoleiddio (CG)
Jim Woodcock - Pennaeth Cynllunio & Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd (CSYM)

## 1. CADEIRYDD

Cafodd Cyng John A Roberts ei ethol fel Cadeirydd y Pwyllgor a Phanel CDLl ar y Cyd am y cyfnod 2014 - 2015.

## 2. IS-GADEIRYDD

Cafodd Cyng John Wyn Williams ei ethol fel is-gadeirydd y Pwyllgor a Phanel CDLl ar y Cyd am y cyfnod 2014 - 2015.

Gan nad oedd Cyng John A Roberts yn gallu bod yn bresennol fe gafodd y cyfarfod ei gadeirio gan y Cyng John Wyn Williams

## 3. YMDDIHEURIADAU

Fel nodwyd uchod.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim

## 5. MATERION BRYS

Dim

## 6. COFNODION

Derbyniwyd Cofnodion Pwyllgor 24 Medi 2013 fel y rhai cywir a chafwyd eu harwyddo gan yr Is-gadeirydd.

## 7. DATGANIAD LLYWODRAETH AR GYFER Y PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD

Cyflwynwyd adroddiad gan Gareth Jones ar ran Aled Davies i godi ymwybyddiaeth y Pwyllgor o fersiwn drafft o Ddatganiad Llywodraethu ar gyfer y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd. Mae'n ofyniad statudol bellach bod datganiadau o'r math yma'n cael eu paratoi a'u cyflwyno ar ffurf drafft yn y lle cyntaf.

Nodwyd y byddai adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor fel rhan o becyn adroddiadau archwilio'r Pwyllgor ar y Cyd.

## 8. CYFRIFON TERFYNOL Y CYD BWYLLGOR AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2014

Cyflwynwyd adroddiad gan W E Jones oedd yn ymateb i ofyniad statudol o dan Adran 12 o Ddeddf Archwilio Gyhoeddus (Cymru) 2004 i adrodd yn benodol am gyfrifo ac archwilio cyfrifon Pwyllgorau ar y Cyd. Eglurwyd fod angen cwblhau ffurflenni swyddogol ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru a byddai'r ffurflenni'n destun archwiliad ar wahân.

Cyflwynwyd copi o'r ffurflenni yn Atodiad A & B. Ar ôl i Archwilydd Penodedig archwilio'r wybodaeth bydd adroddiad "ISA260" yn cael ei chynhyrchu gan Swyddfa Archwilio Cymru. Caiff yr adroddiad yma ei chyflwyno i sylw'r Pwyllgor ym mis Medi 2014.

Penderfynwyd derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad a'r atodiadau.